MAE POBL LÂN YN ANRHYDEDDU JEHOFA

Nodyn i'r siaradwr:
Esbonia pam mae bod yn gorfforol lân ac osgoi arferion halogedig neu aflan yn angenrheidiol ac yn fuddiol i weision Duw. Ceisia amddiffyn safonau uchel Jehofa gan addasu'r deunydd i amgylchiadau ac anghenion lleol

RHAID I NI FOD YN SANCTAIDD GAN FOD JEHOFA YN SANCTAIDD (3 mun.)

Mae Jehofa yn Dduw sanctaidd (*it*-1-E 1127-1128)

Mae popeth mae'n ei wneud ar gyfer dynolryw yn gyfiawn ac yn fuddiol; mae'n fraint cael gwasanaethu'r fath Dduw

Mae Jehofa yn gofyn i'w addolwyr fod yn sanctaidd hefyd **[Darllen 1 Pedr 1:15, 16]**

Mae'r Beibl yn aml yn cysylltu sancteiddrwydd gyda glendid (Le 10:10)

Os ydyn ni'n honni ein bod yn addoli Jehofa ond yn gwrthod byw yn unol â'i safonau glendid, rydyn ni'n dwyn gwarth arno

Yn ogystal â bod yn lân yn ysbrydol, yn foesol ac yn feddyliol, rhaid inni hefyd fod yn gorfforol lân (1Co 10:21; Eff 5:5; Php 4:8)

BYDDWCH YN GORFFOROL LÂN AC YN DREFNUS (12 mun.)

Gorchmynnodd Jehofa i'r Israeliaid fod yn gorfforol lân (Ex 19:10, 11; 29:4; 30:18, 19)

Roedd rhaid i'r Israeliaid gadw eu gwersyll yn lân (De 23:12-14)

Roedd y deddfau a roddodd Duw iddyn nhw yn adlewyrchu ei sancteiddrwydd, a hefyd yn dangos y gofal oedd ganddo dros ei bobl (Sal 33:12)

Dylai gweision Duw heddiw gadw eu cyrff a'u dillad yn lân (*lv* 90-92 ¶14-16)

Dylen ni fod yn drefnus ym mhob agwedd o'n bywyd **[Darllen 1 Corinthiaid 14:33, 40]**

Dylai ein tai a'n ceir fod yn lân ac yn drefnus, ar y tu mewn a'r tu allan

Dylen ni gyfrannu at lendid ein cymuned drwy gael gwared ar ein sbwriel yn y ffordd gywir (*g*-E 12/07 10, 11)

Rydyn ni'n osgoi ffasiynau gwisg eithafol a blêr sy'n adlewyrchu ysbryd y byd hwn (Rhu 12:1, 2)

Dylai ein gwisg a thrwsiad fod yn 'weddus ac yn synhwyrol' hyd yn oed yn ein hamser hamdden (1Ti 2:9, 10)

Efallai bydd rhaid inni setlo ar beidio cael ein ffordd ein hunain allan o barch at gydwybod pobl eraill (*w12*-E 8/15 13 ¶8)

Wrth fod yn lân ac yn drefnus, adlewyrchwn yn dda ar Jehofa Dduw ac ar y neges rydyn ni'n ei phregethu (Mth 5:16)

CADWCH DRAW RHAG "UNRHYW BETH ALLAI EIN GWNEUD NI'N AFLAN" (10 mun.)

Mae gwerthfawrogi gofal cariadus Jehofa yn ein cymell ni i osgoi arferion a fydd yn ein halogi **[Darllen 2 Corinthiaid 7:1]** (2Co 6:17, 18; *lv* 93-95 ¶20-21)

Mae *ysmygu a chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol* yn dangos amarch tuag at Jehofa, Rhoddwr bywyd (Sal 36:9; *lv* 95 ¶22-24)

Ni allwn wasanaethu Duw â'n holl enaid os ydyn ni'n niweidio ein meddwl a'n corff (Mth 22:37; *w14*-E 6/1 5; *w10*-E 1/1 5)

Mae *dweud pethau anweddus a maleisus* yn aflan, a does dim modd esgusodi pethau fel hyn ymysg y rhai sy'n honni caru Duw (Col 3:8; *lv* 136-139 ¶9-14)

Gyda chymorth Duw, gallwn drechu arferion drwg sydd wedi hen ymwreiddio (2Co 4:7)

Mae Tystion Jehofa yn cynnig cyngor a chymorth Ysgrythurol i'r rhai sydd eisiau torri'n rhydd o afael y fath arferion (*g*-E 5/10 4-9; *g*-E 5/09 8-10)

Mae llawer o bobl wedi cael help i roi'r gorau i'w harferion drwg ac maen nhw bellach yn mwynhau bywydau glân [Rho esiampl neu ddwy o'r gyfres "Mae'r Beibl yn Newid Bywydau" yn y *Tŵr Gwylio*]

CADWCH EICH SAFIAD GLÂN GERBRON DUW (5 mun.)

Profwch eich hunain yn rheolaidd i sicrhau nad yw byd Satan yn dechrau dylanwadu arnoch (2Co 13:5; Iag 1:23-25)

Dewiswch ffrindiau fydd yn eich helpu i aros yn lân (1Co 15:33; *w06*-E 3/15 23 ¶8-10)

Peidiwch â rhoi'r gorau i geisio bod yn lân yng ngolwg Jehofa os ydych chi'n baglu

Gofynnwch i Jehofa am faddeuant a chymorth ar sail y pridwerth (1In 2:1; *cl*-E 159-160 ¶7)

Bydd Jehofa yn eich cymeradwyo a'ch bendithio am eich ymdrech gyson (2Pe 3:13, 14; *w03*-E 7/15 13 ¶13-15)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169]

© 2017 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania